# Cofnodion - Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Cynhadledd Fideo Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 22 Medi 2020

Amser: 08.59 - 09.49

# Preifat

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Rebecca Evans AS<br>Darren Millar AS<br>Siân Gwenllian AS |
| Staff y Pwyllgor: | Aled Elwyn Jones (Clerc) |
| Eraill yn bresennol | Ann Jones AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd<br>Elin Roberts, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru<br>Bethan Garwood<br>Aled Ap Neill |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Cytunwyd ar gofnodion y cyfarfod blaenorol i'w cyhoeddi.

## 3 Trefn busnes

### 3.1 Busnes yr Wythnos Hon

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at y tri newid i fusnes dydd Mawrth: ychwanegu datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol; gohirio Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 8) (Caerffili) 2020; a thynnu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020 yn ôl.

*Egwyl / newid*

Cytunodd y Rheolwyr Busnes i gael un egwyl dydd Mawrth a dau egwyl dydd Mercher.

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd y gloch yn cael ei chanu ar ddiwedd pob egwyl, i roi rhybudd y gall Aelodau ddod i mewn i'r Siambr a bod busnes ar fin ailddechrau.

*Terfyn amser Datganiadau 90 Eiliad*

Dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes mai'r terfyn amser ar gyfer cyflwyno datganiadau 90 eiliad fydd 10am – yr un peth â chwestiynau amserol. Os nad yw pob slot ar gyfer y diwrnod hwnnw yn cael eu llenwi, gall y Llywydd ddefnyddio ei disgresiwn i dderbyn cais hwyr.

*Gwelliannau i gynigion*

Yn y sefyllfa bresennol ac o ystyried hyd y dyddiau busnes, dywedodd y Llywydd wrth y Rheolwyr Busnes y bydd yn defnyddio ei phŵer i ddad-ddethol gwelliannau pan fydd o'r farn bod hynny'n briodol at ddibenion cynnal busnes y Senedd yn gywir.

### 3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Tynnodd y Trefnydd sylw'r Rheolwyr Busnes at yr amserlen ddiwygiedig, a ddosbarthwyd y bore yma, a oedd yn ychwanegu Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronfeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Pen-y-bont ar Ogwr, Merthyr Tudful a Chasnewydd ac ati) 2020 i 29 Medi.

### 3.3 Amserlen Busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Gofynnodd y Llywydd i'r Ysgrifenyddiaeth am bapur ar sut y gellid defnyddio'r amser sydd ar gael ar gyfer busnes dydd Mercher yn fwy effeithlon. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i adolygu'r busnes ar gyfer 7 Hydref er mwyn lleihau hyd cyffredinol y cyfarfod.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnwys yr eitemau busnes a ganlyn yn yr amserlen:

**Dydd Mercher 14 Hydref 2020 -**

- Dadl Aelodau o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Brexit (60 munud)

### 3.4 Dadl Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Trafododd y Pwyllgor Busnes y cynigion a gyflwynwyd a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 30 Medi:

**NNDM7384 Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi:

a) y niwed y mae tlodi'n ei wneud i gyfleoedd bywyd ac nad yw gwaith bellach yn llwybr gwarantedig allan o dlodi;

b) bod y pandemig wedi gorfodi mwy o bobl i mewn i dlodi gyda niferoedd cynyddol o breswylwyr yn gorfod troi at gymorth elusennol fel banciau bwyd;

c) yr oedd twf y DU, hyd yn oed cyn y pandemig, yn wael a'n bod yn wynebu'r her gynyddol o awtomeiddio, sy'n gosod niferoedd cynyddol o swyddi mewn perygl;

d) bod incwm sylfaenol cyffredinol yn rhoi mwy o reolaeth i bobl dros eu bywydau, yn lleddfu tlodi ac, yn ogystal, yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd meddwl;

e) y byddai incwm sylfaenol cyffredinol yn creu swyddi ac yn annog pobl i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi;

f) bod incwm sylfaenol cyffredinol yn rhoi'r lle i bobl gymryd mwy o ran yn eu cymuned a chefnogi eu cymdogion.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru:

a) i sefydlu treial incwm sylfaenol cyffredinol yng Nghymru;

b) i lobïo Llywodraeth y DU am gyllid i sefydlu incwm sylfaenol cyffredinol ledled Cymru.

**Cefnogwyr:**

**Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr)**
**Alun Davies (Blaenau Gwent)**
**Bethan Sayed (Gorllewin De Cymru)**
**Dai Lloyd (Gorllewin De Cymru)**
**Dawn Bowden (Merthyr Tudful a Rhymni)**
**Helen Mary Jones (Canolbarth a Gorllewin Cymru**
**Huw Irranca-Davies (Ogwr)**
**Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**
**John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

**Leanne Wood (Rhondda)**

**Mick Antoniw (Pontypridd)**

**Mike Hedges (Dwyrain Abertawe)**

**Rhianon Passmore (Islwyn)**

**Sian Gwenllian (Arfon)**

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i amserlennu’r cynnig canlynol i’w drafod ar 14 Hydref:

**NNDM7304**

**Jenny Rathbone (Canol Caerdydd)**

**Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

**Suzy Davies (Gorllewin De Cymru)**

**Vikki Howells (Cwm Cynon)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn cydnabod effaith ddinistriol endometriosis sy'n effeithio ar un o bob 10 menyw yng Nghymru.

2. Yn nodi ei bod yn cymryd, ar gyfartaledd, wyth mlynedd a 26 apwyntiad meddyg teulu i gael atgyfeiriad at arbenigwr endometriosis.

3. Yn galw am fwy o ymchwil i achosion endometriosis a thriniaethau posibl.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod ysgolion yn gwneud pob disgybl yn ymwybodol o'r hyn sy'n gyfnod mislif arferol a phryd i ofyn am gyngor meddygol.

5. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod mwy o arbenigwyr endometriosis yn cael eu hyfforddi fel y gall pob menyw gael triniaeth arbenigol yng Nghymru.

**Cefnogwyr:**

**Jack Sargeant (Alun a Glannau Dyfrdwy)**

_

# 4 Deddfwriaeth

## 4.1 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 10) ( Rhondda Cynon Taf) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 28 Medi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 4.2 Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Cymru) 2020

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 28 Medi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

*Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 11) (Blaenau Gwent, Casnewydd, Merthyr Tudful a Phen-y-Bont ar Ogwr etc.) 2020*

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i bennu dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ddydd Llun 28 Medi i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad gyflwyno adroddiad ar y rheoliadau.

## 4.3 Y wybodaeth ddiweddaraf am y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol cyfredol

Nododd y Pwyllgor Busnes y sefyllfa ddiweddaraf o ran Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol a dyddiad arfaethedig yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Tân a Diogelwch.

Cytunodd y Pwyllgor i beidio â chyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Pysgodfeydd i graffu arno.

# 5 Pwyllgorau

## 6.1 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Deisebau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r ddwy ddadl yn nhymor yr hydref ac i gael ei arwain gan y Pwyllgor Deisebau ar amseriad y dadleuon. Awgrymodd y Rheolwyr Busnes y gallai'r Pwyllgor Deisebau ystyried adolygu nifer y llofnodion sy'n ofynnol ar gyfer dadl.

## 6.2 Llythyr gan Gadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu dadl a arweinir gan bwyllgor ar y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ym mis Tachwedd.

## 6.3 Ceisiadau o ran amserlen pwyllgorau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r ceisiadau canlynol gan bwyllgorau am slotiau cyfarfod yn ystod wythnos olaf yr hanner tymor:

- Cyfarfod bore dydd Mercher 21 Hydref i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar gyfer sesiwn Weinidogol olaf gyda'r Gweinidog Addysg mewn perthynas â'r Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru).
- Cadw slot i'r Pwyllgor Cyllid os bydd ei angen i gynnal cyfarfod y mae'n ceisio ei drefnu gydag Ysgrifennydd Gwladol Cymru a Phrif Ysgrifennydd y Trysorlys.
- Cynnal cyfarfod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau a drefnwyd yn wythnos 10 ddydd Gwener 27 Tachwedd yn hytrach na dydd Llun 23 Tachwedd, gan fod y pwyllgor yn cynnal trafodion Cyfnod Dau ar y Bil Rhentu Cartrefi (Diwygio) (Cymru).

Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd i adolygu amseriad slot prynhawn Llun i 13:30 – 17:00.

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i'r dull arfaethedig o'r modd y mae'r ysgrifenyddiaeth yn casglu ceisiadau pwyllgorau i newidiadau i'r amserlen a chyfarfodydd wythnos gwarchodedig, a chyflwyno'r rhain mewn un papur.

## 7 Papurau i'w nodi

### 7.1 Llythyr gan y Trefnydd a'r Cwnsler Cyffredinol:

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

### 7.2 Llythyr gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig:

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr.

## Unrhyw Fater Arall

### Aelodaeth Pwyllgorau

Cytunodd y Pwyllgor Busnes i gyflwyno cynnig i ethol Caroline Jones yn aelod o'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ddydd Mercher, ac i gyflwyno cynnig i ethol aelodau i bwyllgor y Llywydd.